# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
# Cyd-bwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023
# Trwy Microsoft Teams

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Andy | Bates | AB | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Phillip | Barlow | PB | Cyngor Sir Penfro |
| Annie | Campbell | AC | Llywodraeth Cymru |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Rachel | Clegg | RC | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Michael | Cole | MC | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Hugo | Cosh | HC | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Janine | Edwards | JE | Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru |
| Kerry | Earnshaw | KE | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| James | Falkner | JF | Llywodraeth Cymru (cofnodwr) |
| Lloyd | Fisher | LF | Cyngor Bro Morgannwg |
| Faye | Gracey | FG | Llywodraeth Cymru |
| Steph | Howarth | SH | Llywodraeth Cymru |
| Steph | Harries | SH1 | Llywodraeth Cymru |
| Eleri | James | EJ | Comisiynydd y Gymraeg |
| Bea | Jefferies | BJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Leanne | John | LJ | Cyngor Dinas a Sir Abertawe |
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Helen | Jones | HJ | Ymchwil y Senedd |
| Steve | King | SK | Cyngor Dinas a Sir Abertawe |
| Emily | Knipe | EK | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Pete | Large | PL | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Morgan | Lowden | ML | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ceri | Lewis | CL | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Chris | McGowan | CMG | Llywodraeth Cymru |
| Edward | Morgan | MA | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Victoria | Morgan | VM | Cyngor Bro Morgannwg |
| John | Morris | JM | Llywodraeth Cymru |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Joseph | Nicholson | JN | Llywodraeth Cymru (cofnodwr) |
| Llio | Owen | LO | Llywodraeth Cymru |
| Kay | Palmer | KP | Archwilio Cymru |
| Joshua | Parry | YH | Llywodraeth Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Martin | Parry | AS | Llywodraeth Cymru |
| Rhys | Powell | RP | GIG Cymru |
| Jonathan | Radcliffe | JR | Chwaraeon Cymru |
| Hayley | Randall | HR | Data Cymru |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Heledd | Rees | HR1 | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| David | Roberts | DR | Llywodraeth Cymru |
| Vickey | Rose | VR | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Elaine | Smith | ES | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Helena | Snuggs | HS | Chwaraeon Cymru |
| Jacob | Squires | JS | Llywodraeth Cymru |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Caitlin | Theodorou | CT | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sarah | Waite | SW | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Louise | White | LW | Llywodraeth Cymru |
| Alwyn | Williams | AW | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gerald | Williams | GW | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Megan | Williams | MW | Llywodraeth Cymru |
| Andy | Wilson | AW | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Lowri | Wyn Morton | LWM | Cyngor Gwynedd |
| Nia | Wyn Vaughan | NWV | Cyngor Gwynedd |

## Siaradwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Steph | Howarth | SH | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Chris | McGowan | CMG | Llywodraeth Cymru |
| John | Morris | JM | Llywodraeth Cymru |
| Dave | Roberts | DR | Llywodraeth Cymru |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru |
| Ceri | Lewis | CL | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Heledd | Rees | HR1HR | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Pete | Large | PL | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Gerald | Williams | GW | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Ed | Morgan | EM | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Andy | Bates | AB | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Kerry | Earnshaw | KE | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Hugo | Cosh | HC | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

## Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Gwyneth | Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Chris | Clarke | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Shaun | Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Brett | Davis | Heddlu De Cymru |
| Karen | Hawkes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Steven | Marshall | Llywodraeth Cymru |

| 1 | **Croeso, Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau** – Steph Howarth, Llywodraeth Cymru | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | Croesawodd SH bawb. Gweler ymddiheuriadau uchod. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Darparwyd cyfieithu ar y pryd.<br><br>Bydd pob cyflwyniad yn cael ei rannu ar-lein ar ôl y cyfarfod. | |
| **2** | **Nodyn y cyfarfod diwethaf, diweddariad ar bwyntiau gweithredu, diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru, diweddariad demograffeg a diweddariad Data Cymru** – Steph Howarth, Llywodraeth Cymru | |
| | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf:**<br>Bydd sefydliad JE yn cael ei ddiwygio yn y cofnodion. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill o gofnodion y cyfarfod diwethaf.<br><br>**Diweddariad ar gamau gweithredu:**<br>• Nododd SH fod mwyafrif y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi eu cwblhau.<br>• Cam Gweithredu 6 - Nododd LWM fod y cam gweithredu yn gam mewn perthynas â data cyfrifiad 2011 ar gyfer ffiniau wardiau newydd. Cam gweithredu i'w godi eto o dan eitem y cyfrifiad ar yr agenda.<br><br>**Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru:**<br><br>Tynnodd SH sylw'r aelodau at nifer o eitemau o'r diweddariad chwarterol.<br>• Mae data am bresenoldeb mewn ysgolion yn parhau i gael ei gyhoeddi'n wythnosol. Bydd effaith streiciau yn cael ei dadansoddi y tro nesaf y caiff y data hwn ei gasglu.<br>• Iechyd: Mae mesurau perfformiad y GIG yn cael eu cyhoeddi'n fisol ac rydym wedi bod yn cefnogi pobl i wneud cymariaethau â Lloegr yn fwy effeithiol. Rydym wedi ehangu'r ystod o ystadegau gofal sylfaenol, gan gynnwys dadansoddi presgripsiynau ac amddifadedd. Nododd JE nad yw clystyrau gofal sylfaenol yn aml yn ddaearyddiaeth ddadansoddol addas. Gellid ystyried gofal sylfaenol fel eitem bosibl ar yr agenda yn y dyfodol.<br>• O ran costau byw, mae data o'r Cynllun Cymorth Dewisol bellach yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd, ac mae dadansoddiad fesul awdurdod lleol yn cael ei archwilio. Mae blog ar ffynonellau data costau byw wedi ei gyhoeddi.<br>• Nodwyd bod ystadegau cyntaf y cyfrifiad ar y Gymraeg wedi'u cyhoeddi, ac fe gyhoeddwyd blog i esbonio cymariaethau â data arolygon.<br>    • Gofynnodd LR a fyddai modd i Awdurdodau Lleol gael mynediad at ddata proffil uchel fel hyn cyn iddo gael ei gyhoeddi i helpu i ymdrin â cheisiadau a chwestiynau? Cadarnhaodd SH mai dim ond nifer bach o ystadegwyr Llywodraeth Cymru sydd â mynediad cynnar at ddata'r cyfrifiad a bod angen cyfyngu mynediad at ddeunydd cyn ei ryddhau o dan drefniadau a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, a dim ond am resymau penodol y caniateir hynny.<br>• Gofynnodd VD a fyddai modd trafod MALIC yn y WSLC nesaf.<br><br>**Y diweddaraf am y Boblogaeth a Demograffeg:**<br>Diweddariadau i'w cynnwys mewn cyflwyniadau yn ddiweddarach.<br><br>**Diweddariad am Data Cymru:** | Yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried gofal sylfaenol a MALIC wrth gynllunio pynciau'r agenda yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | SS: Nodwyd gweminarau a sesiynau hyfforddi sydd ar y gweill yn y papur ac ar y wefan. Caiff dangosfyrddau Data Cymru eu trafod yn ddiweddarach yn yr agenda. | |
| **3** | **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – Chris McGowan, Llywodraeth Cymru | |
| | Cyflwynodd Chris McGowan yr eitem hon. Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Trafododd Chris y pwyntiau allweddol canlynol:<br>• Newid contractwyr yr arolwg a seibiant mewn casglu data yn 2023-2024.<br>• Newidiadau yn nyluniad yr arolwg<br>• Mae pynciau arolwg 2024/25 wrthi'n cael eu datblygu. Caiff canlyniadau gwaith maes 2024/25 eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025<br>• Mae croeso i aelodau gysylltu â ni os oes ganddynt geisiadau am bynciau neu i drafod gyda chysylltiadau polisi sefydledig<br><br>Gofynnodd aelodau gwestiynau am gymhared data rhwng contractwyr, y potensial ar gyfer canlyniadau rhanbarthol a'r gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg. | |
| **4** | **ONS Local** – Ceri Lewis a Heledd Rees, y Swyddfa Ystadegau Gwladol | |
| | Cyflwynodd Heledd Rees waith ONS Local, tîm newydd yn ONS. Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Ymdriniodd Heledd â'r pwyntiau allweddol canlynol ynghylch nodau ONS Local:<br>• Anelu at wella penderfyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Bod yn fel drws ffrynt i ONS<br>• Uno ardaloedd â heriau tebyg i allu rhannu atebion<br>• Bydd cyflwyniad graddedig<br>• Sefydlu cylchlythyrau misol a gweminarau ONS<br>• Mae cyfarfod bord gron i randdeiliaid Cymru wedi'i gynllunio ar gyfer 16 Mawrth<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am bwy y mae ONS Local yn credu yw ei randdeiliaid ac am natur y cyfarfod bord gron ar 16 Mawrth. | |
| **5** | **Y Cyfrifiad** | |
| | **Diweddariad ar allbynnau'r Cyfrifiad (Gerald Williams a Pete Large, y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**<br>Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Fe wnaeth GW grynhoi allbynnau'r cyfrifiad sydd wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn a chynlluniau ar gyfer y misoedd nesaf. Disgrifiodd PL y broses ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon y cyfrifiad, gan gynnwys rheoli datgelu ystadegol, a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi defnydd o'r data hwn.<br><br>Cododd yr aelodau nifer o bwyntiau trafod, gan gynnwys:<br>• Problemau gyda thablau'n dod i wahanol gyfansymiau. Mae gwybodaeth ar gael yn Gwybodaeth Ansawdd a Rheoli (QMI) ar gyfer Cyfrifiad 2021 i esbonio'r mater hwn.<br>• Argaeledd data yn yr offeryn adeiladu ardal. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Materion daearyddiaeth, megis gallu cymharu wardiau 2011 a 2022. Bydd offeryn edrych i fyny ar gael, gan ddefnyddio dull ffit gorau.<br>• Pan fyddai cynhyrchion a dadansoddiad penodol ar gael.<br><br>**Ymgynghoriad sydd ar y gweill ar ystadegau'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol (Ed Morgan, y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**<br>Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Gwnaeth Ed Morgan gyflwyniad ar yr ymgynghoriad sydd ar y gweill ar ystadegau'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol, gan nodi'r amseru arfaethedig, rôl y cyfrifiad a data gweinyddol, a gweithgareddau ymgysylltu sydd wedi'u cynllunio.<br><br>Dywedodd SH y bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu grŵp cynghori er mwyn llywio eu hymateb i'r ymgynghoriad. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â'r grŵp hwn gysylltu.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am gwmpas yr ymgynghoriad. Rhannwyd profiad o fod yn awdurdod peilot gan CT.<br><br>**Daearyddiaeth y Cyfrifiad (John Morris a Dave Roberts, Llywodraeth Cymru ac Andy Bates, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**<br><br>Rhoddodd AB yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau diweddar mewn daearyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfrifiad. Mae amcangyfrifon cyfrifiad newydd wedi golygu bod rhai ffiniau daearyddol wedi'u hail-lunio lle mae poblogaethau wedi newid. Cafodd ardal o Gasnewydd ei defnyddio i ddangos rhai newidiadau.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau sy'n ymwneud â newidiadau daearyddol yn eu hardaloedd ac ynghylch a oedd daearyddiaethau gwahanol yn nythu i'w gilydd. Mynegodd rhai aelodau bryder nad yw cynghorau cymuned yn ddaearyddiaeth safonol.<br><br>Aeth JM drwy gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiweddaru'r enwau a ddefnyddir ar gyfer daearyddiaethau ystadegol megis LSOAs. Bydd dull cyd-gynhyrchu gyda'r awdurdodau lleol yn cael ei ddefnyddio. Bydd blog yn nodi opsiynau (e.e. gwneud dim, cadw enwau presennol lle bo modd, ymarfer ailenwi llawn) ac yna bydd gwaith manwl yn digwydd i gynhyrchu enwau.<br><br>Cydnabuwyd gwerth cael enwau ar gyfer ardaloedd bach yn gryf gan yr aelodau, gyda rhai eisoes yn cynhyrchu eu henwau eu hunain. Trafodwyd egwyddorion megis pryd i ailenwi, a ddylid defnyddio'r un enw ar draws daearyddiaethau lluosog (e.e. ward a LSOA).<br><br>Atebodd DR gwestiynau gan yr aelodau ynghylch argaeledd data ac ymarferoldeb ar MapDataCymru.<br><br>O gofio'r diddordeb sylweddol mewn daearyddiaeth, awgrymwyd y gellid cynnal archwiliad dwfn ar wahân ar y pwnc, naill ai mewn cyfarfod yn y dyfodol neu ar wahân. | Yr aelodau i gysylltu â'r ysgrifenyddiaeth os oes ganddynt ddiddordeb mewn ymuno â grŵp cynghori Llywodraeth Cymru ar ddyfodol ystadegau'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol.<br><br>EM i ddilyn i fyny gyda CT ynghylch profiad y peilot o ystadegau'r boblogaeth.<br><br>LWM a DR i drafod problemau gyda MapDataCymru (ee newid lliwiau ffiniau)<br><br>Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu sesiwn archwiliad dwfn ar Ddaearyddiaeth y Cyfrifiad |

| | | |
|---|---|---|
| | **Prosiect Buddion y Cyfrifiad (Kerry Earnshaw, y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**<br><br>Disgrifiodd KE ddiben Prosiect Buddion y Cyfrifiad yn fyr a dywedodd wrth yr aelodau y gellid gofyn iddynt am eu mewnbwn ar y prosiect yn y dyfodol. | |
| **6** | **Diweddariad ar amcangyfrifon o'r boblogaeth** - Martin Parry, Llywodraeth Cymru | |
| | Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Crynhôdd AS waith diweddar ac arfaethedig ar y boblogaeth gan ONS a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amcangyfrifon ac amcanestyniadau canol blwyddyn.<br><br>Gofynnodd yr aelodau sut yr oedd y newid yn nata'r boblogaeth yn llywio penderfyniadau polisi ac ariannu. | |
| **7** | **Costau byw** | |
| | **Dangosfwrdd Costau Byw (Sam Sullivan, Data Cymru)**<br>Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Crynhôdd Sam Sullivan waith gan Data Cymru yn ymwneud â chostau byw, gan gynnwys dangosfyrddau ar dlodi a chwyddiant. Os oes gan aelodau unrhyw adborth ar y dangosfyrddau, dylent gysylltu â ni.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y cyflwynir gwybodaeth am ansawdd data. Roedd trafodaeth hefyd ar fynediad at ddata CACI Paycheck, o gofio mai dim ond rhai Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r consortiwm sydd wedi trefnu mynediad. Dylai Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r consortiwm gysylltu â SS i gael mynediad at y dangosfwrdd gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, os nad ydynt eisoes yn gallu mewngofnodi. SS i wirio cyngor gan CACI ar y defnydd o ddata ar gyfer yr Awdurdodau Lleol hynny nad ydynt yn rhan o'r consortiwm.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn am rôl data CACI mewn asesiadau lleol yn y farchnad dai. Bydd SH ac SL yn adrodd yn ôl ar hyn.<br><br>**Dangosyddion ar lefel LSOA i helpu i dargedu ymyriadau ar gyfer costau byw a phwysau'r gaeaf yng Nghastell-nedd Port Talbot (Hugo Cosh, Iechyd Cyhoeddus Cymru)**<br><br>Mae sleidiau ar gael ar-lein.<br><br>Rhoddodd HC gyflwyniad ar waith gan PHW gyda chyngor Castell-nedd Port Talbot yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, gan gynnwys sut y cafodd dangosyddion perthnasol eu dewis a sut y cafodd proffiliau eu cynhyrchu. Soniodd am rywfaint o waith posibl ar broffiliau ardaloedd lleol yn ymwneud â daearyddiaethau clystyrau gofal sylfaenol Meddygon Teulu. | SS i wirio cyngor gan CACI ar y defnydd o ddata ar gyfer yr Awdurdodau Lleol hynny nad ydynt yn rhan o'r consortiwm a'i rannu gydag Awdurdodau Lleol perthnasol.<br><br>SH a SL i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer data ar incwm mewn LHMAs.<br><br>HC i gysylltu â JE mewn perthynas â data am glystyrau iechyd a |

| | | |
|---|---|---|
| | Mynegodd JE ddiddordeb yn y proffiliau gan fod eraill yn gwneud gwaith tebyg ac rydym yn awyddus i osgoi dyblygu. Cynigiodd HC rannu gwybodaeth y tu allan i'r cyfarfod ar hyn. | Meddygon Teulu. |
| **8** | **UFA** | |
| | Gofynnodd LWM a oedd Llywodraeth Cymru yn gyfarwydd â data Rightmove ac a oedd ganddi unrhyw gynlluniau i brynu hyn. | SH i edrych i weld a yw Llywodraeth Cymru yn prynu data Rightmove |
| **9** | **Cloi** | |
| | Diolchodd SH i'r cyflwynwyr a'r aelodau am fynychu a chyfrannu. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Mehefin. | |

| | **Camau gweithredu** | |
|---|---|---|
| 1 | Yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried gofal sylfaenol a MALIC wrth gynllunio pynciau'r agenda yn y dyfodol. | Ysgrifenyddiaeth |
| 2 | Yr aelodau i gysylltu â'r ysgrifenyddiaeth os oes ganddynt ddiddordeb mewn ymuno â grŵp cynghori Llywodraeth Cymru ar ddyfodol ystadegau'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol. | Pob aelod |
| 3 | EM i ddilyn i fyny gyda CT ynghylch profiad y peilot o ystadegau'r boblogaeth. | EM/CT |
| 4 | LWM a DR i drafod problemau gyda MapDataCymru (ee newid lliwiau ffiniau) | LMW/DR |
| 5 | Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu sesiwn archwiliad dwfn ar Ddaearyddiaeth y Cyfrifiad | Ysgrifenyddiaeth |
| 6 | SS i wirio cyngor gan CACI ar y defnydd o ddata ar gyfer yr Awdurdodau Lleol hynny nad ydynt yn rhan o'r consortiwm a'i rannu gydag Awdurdodau Lleol perthnasol. | SS |
| 7 | SH a SL i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer data ar incwm yn LHMAs. | SH/SL |
| 8 | HC i gysylltu â JE mewn perthynas â data am glystyrau iechyd a Meddygon Teulu. | HC/JE |
| 9 | SH i edrych i weld a yw Llywodraeth Cymru yn prynu data Rightmove | SH |